DOD YNGHYD

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Defnyddio'r Canllaw
3. Rhan 1: Adnabod ein Hunain
4. Rhan 2: Adnabod ein Nod

CYFLWYNIAD

PAM DOD YNGHYD?
Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar ein gallu – a'n hawydd – i ymgynnull. Gall effaith hirdymor hyn fod yn enfawr, gyda hen arferion cwrdd yn cael eu diddymu, pobl yn cael eu hynysu wrth eraill, a phopeth sydd wedi dal ein cymunedau gyda'i gilydd yn sydyn yn ymddangos yn anodd eu cyffwrdd.

Daw cyfle felly i holi'n hunain: pam dod ynghyd?

Bydd yr atebion yn amrywio o berson i berson, ond y peth pwysig yw ein bod yn dod ynghyd. Yn y dod ynghyd mae'r egni, yr holi, yr adnabod, y creu, y trefnu, y chwerthin. Y cwestiwn nesaf yw: sut? Ar adegau fel hyn, mae'n gwestiwn ymarferol cymaint â dim; ond mae hefyd yn gyfle i ddychmygu: sut ydyn ni eisiau dod ynghyd? Beth ydyn ni eisiau i'n gweithgaredd fod? Sut gallwn ni ddysgu gwersi o'r flwyddyn o beidio â gallu cwrdd â'n gilydd i wella'r profiad o fod gyda'n gilydd?

Canllaw yw **Dod Ynghyd** i'n hannog ni i feddwl am y cwestiynau yma wrth ddod yn ôl at ein gilydd. Mae'n ganllaw i unigolion sy'n cydio yn yr awenau er mwyn gwneud gwahaniaeth; i grwpiau sydd wedi'u hen sefydlu sydd eisiau edrych ar bethau o'r newydd; i fudiadau sydd wedi blino ar hen arferion. Mae'n gofyn i ni ystyried pwy y'n ni, i ble y'n ni eisiau mynd, pwy ddyle ni fod yn eu cynnwys, a sut i gynnwys y rhai dy'n ni ddim.

Pam Dod Ynghyd? Sut i Ddod Ynghyd? Yr un yw'r ddau.

DEFNYDDIO'R CANLLAW

I BWY MAE E?
I bawb sy'n moyn dod â phobl ynghyd i gynnal rhyw elfen o gymdeithas: boed i gynnal gweithgarwch mudiad, clwb neu gymdeithas; cynnal digwyddiad; neu greu rhywbeth. I unigolion sydd eisiau gwybod ble i ddechrau, ac i hen bennau sydd eisiau rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol.

I WNEUD BETH?
I ddod ynghyd. I drefnu rhaglen flynyddol mudiad, dychmygu gŵyl gerddorol newydd, cynnal digwyddiad i'ch pentref neu gymuned. Dod ynghyd er mwyn trafod rheswm arall i ddod ynghyd!

BLE I DDECHRAU?
Y cam cyntaf yw cynnull pobl ynghyd — un, dau o bobl, mwy os yn bosib. Dwy sgwrs sy'n gweithio orau, wythnos ar wahân. Yn ddigidol, yn y cnawd, neu rywfaint o'r ddau. Dewiswch bobl y'ch chi'n nabod, ond ystyriwch wahodd pobl dy'ch chi ddim.

Beth am holi ble mae pawb yn gyffyrddus i gyfarfod - a oes angen cwrdd yn y cnawd y tro yma, neu yw defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda yn gwneud y tro? Gallwch ddefnyddio'r **Pecyn Adnoddau** i gynnig cymorth i bobl.

CYNNAL SESIYNAU
Dilynwch y canllaw, gam wrth gam, mewn dwy sesiwn. Cofnodwch eich darganfyddiadau i bawb allu eu gweld. Gallwch wneud hyn ar fwrdd gwyn neu siart troi, neu yn ddigidol ar raglenni fel Miro neu fwrdd gwyn Zoom. A chofiwch fod mor hygyrch â phosib.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r Pecyn Adnoddau fel y mynnwch. Mae'n gyfuniad o dempledi, delweddau, a chyfarwyddiadau i'ch helpu, i'ch ysbrydoli, ac i ddyfnhau'r drafodaeth. Gallwch eu gweld ar-lein: **bro360.cymru/2021/dod-ynghyd**. Gallwch rannu'r rhain gydag eraill. Bod yn agored ac yn ddychmygus yw nod y broses yma.

Dyma'r meddwl creadigol ar waith…

RHAN 1: ADNABOD EIN HUNAIN

CYN SESIWN 1

PWY FYDDWN NI?: Adnabod grŵp o unigolion i fod yn rhan o'r drafodaeth

Un neu fwy o bobl i wahodd eraill i sgwrs am ffurfio/ail-gydio/ail-ystyried/trefnu

SESIWN 1 (Y SGWRS GREIDDIOL)

PWY Y'N NI?: Sesiwn i sefydlu egwyddorion y grŵp

1. ADNABOD EIN HUNAIN: Beth yw ein hasedau a'n hanes?
Pwy yw'r unigolion sydd yma, a beth yw ein cryfderau?
Beth yw ein hanes fel grŵp / cymuned?
Beth yw ein harferion cyfarfod (pa noson/pa mor aml/mae hwn yn newydd)?

2. CWESTIYNU: Beth yn benodol nawr, eleni, sy'n gwneud i ni gwrdd?
Beth y'n ni'n mwynhau am y gweithgaredd?
Beth yn ychwanegol y'n ni'n cael mas o fod yma?
Beth wnaeth ddod â ni yma am y tro cyntaf?

3. DYCHMYGU: Beth yw'r peth gorau y gallen ni fod yn ei wneud?
Nodi syniadau, a dewis y rhai mwyaf cyffrous (nid y rhai arferol, na'r rhai mwyaf realistig)

4. MYND Â'R SYNIADAU ADRE I BENDRONI
Rhannu ein syniadau gydag unrhyw un na fynychodd ond a oedd eisiau gwneud

AR ÔL SESIWN 1

CYSYLLTU Â PHAWB NAD OEDD YN Y SESIWN OND YR HOFFEM IDDYNT FOD YN RHAN O'R SGWRS:
Rhannu'r hyn a drafodwyd trwy rannu'r cofnod
Holi 'a hoffech chi ymuno yn yr ail sesiwn?'

RHAN 2: ADNABOD EIN NOD

SESIWN 2 (WYTHNOS YN DDIWEDDARACH)

BETH Y'N NI AM EI WNEUD?: Dychmygu, penderfynu, a chynllunio ein gweithgarwch

Edrych yn ôl dros ein nodiadau o Sesiwn 1: Dyma **PWY Y'N NI?**

1. PAM Y'N NI 'MA?
Nodi popeth sy'n bwysig i ni
Nodi popeth sy'n bwysig i bobl heblaw amdanom ni
Nodi popeth sy'n bwysig i'r gymuned ehangach
Rhestru popeth ry'n ni am wneud gwahaniaeth iddynt
Dewis tri o'r rhestr a'u rhoi mewn trefn blaenoriaeth
Dod i gonsensws: **Ein nod eleni yw _____**

2. BETH Y'N NI AM EI WNEUD?
Gan ddefnyddio **Ein nod eleni yw _____** fel sail, dychmygwn yr holl bethau y gallem fod yn eu gwneud (digwyddiad(au), rhaglen o weithgareddau, cynhyrchu rhywbeth)
Trafod pa syniadau sy'n cyd-fynd â'n cymuned (sef **PWY Y'N NI?** o Sesiwn 1)
Adnabod yr un/rhai sy'n ein cyffroi fwyaf

3. PWY?

DECHRAU WRTH EIN TRAED: Adnabod pwy sydd gyda ni'n barod
Pa sgiliau ac adnoddau sydd gyda ni i adeiladu arnyn nhw?
Faint o amser ac egni sydd gyda ni'n bersonol i'w roi?

GWAHODD AT Y DRWS: Adnabod beth arall sydd ei angen
Ble mae'r bylchau yn ein gallu a'n hegni?
Oes gennym ni gysylltiad â phobl eraill?

AGOR Y DRWS: Sut gallwn ni ddenu pobl sy'n newydd i ni?
Beth yw'r neges?
Beth y'n ni eisiau iddyn nhw gyfrannu?

AGOR Y DRWS LED Y PEN: Sut gallwn ni fod yn gynhwysol?
Pwy yn y gymdogaeth dy'n ni ddim yn eu cyrraedd ond sydd angen i ni eu cyrraedd?
Pwy y mae'n rhwydd i ni anghofio amdanynt?
Sut gallwn ni eu croesawu?

●●●

CADW'R DRWS AR AGOR: Cadw'r tîm yn gynaliadwy
Sut ry'n ni'n dewis a rhannu cyfrifoldebau?
A oes rhaid sticio at y 'swyddogaethau' traddodiadol (Cadeirydd, Trysorydd ac ati)?
Sut mae trosglwyddo?

4. SUT A BLE?
Lleoliad: adeilad/tu fas/yn ddigidol/cymysgedd?
Os dod ynghyd yn yr un man, beth yw manteision hynny?
Os dod ynghyd yn ddigidol, beth yw manteision hynny?

5. PRYD?
Penderfynu ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i bawb gan ofyn y cwestiwn: sut gallwn ni wneud e'n haws?
Creu amserlen weithredu, gan weithio nôl o'n **Nod**

6. GWIRIO'R SYNIAD AR Y DIWEDD
Beth yw'r syniad?
I bwy mae'n gwneud gwahaniaeth?
Ydy'r syniad yn ein cyffroi?
Ydy? **Amdani!**

Crëwyd ar sail sgyrsiau Prosiect Fory yn ystod 2020.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Llywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.